

Grym arian a'r farchnad rydd yn ein harwain at gyflafan

Mae troi pob ymwneud cymdeithasol yn ddêl ariannol yn newid ein seicoleg, yn ôl yr Athro Gareth Wyn Jones ...

THEMA'R golofn hon ydi'r berthynas - perthynas ddinistriol yn fy marn i - rhwng ein cyfundrefn economaidd (yn arbennig y fersiwn Eingl-Americanaidd or-gyfalafol ohoni) a'n hamgylchedd a rhyngddi a lles pobol yn gyffredinol.

Ryden ni ar olwyn-droed sy'n gorfod cyflymu'n ddi-ball i osgoi cwmp; trefn sy'n cyfoethogi elit bach ac yn creu swyddi anneniadol i'r llai breintiedig, ond yn gofyn pris trwm yn amgylcheddol, cymdeithasol a phersonol. O ganlyniad, dw i'n ofni ein bod yn prysuro at gyflafan.

Ryden ni'n rhan o gyfundrefn sy'n amlwg yn amhosib ei chynnal, sy'n esgor ar ddigonedd o siarad, cynadleddau ac ysgrifau [fel y golofn hon] ond ychydig o weithredu.

Mae ein Senedd yn sôn am ddeddfu i wneud cynaliadwyedd yn ganolog i'w holl weithgaredd ond niwlog ydi'r weledigaeth.

Yn wir, mae'n anodd llywio a darogan yr union ffordd ymlaen ac, yn anffodus, dydi llawer o'r arfau polisi a grym ddim yn nwylo Cymru.

RHAID DATBLYGU YNNI ADNEWYDDOL

Yn rhesymegol y beth callaf ydi, o leiaf, peidio â dilyn llwybrau a gwneud pethau sy'n amlwg yn anghynnaladwy.

Dyna pan yr ydw i'n pwysleisio bygythiau newid hinsawdd a'r rheidrydd i ddatblygu ynni adnewyddol yng Nghymru a thu hwnt.

Wrth gwrs, mae yna ddigonedd o enghreifftiau anghynnaladwy eraill - gallu'r cyfoethog i osgoi talu trethi ac ysgwyddo eu cyfrifoldebau cymdeithasol (a'r anogaeth bron iddyn nhw wneud hynny - gor-ddefnyddio dyfroedd tanddaear, difa bioamrywiaeth, dadwreiddio cymdeithasau, troi tiroedd yn ddiffeithwch [*desertification*], annog dyledion ar rai sy'n methu eu talu yn ôl, caniatáu i gwmnïau nid yn unig i osgoi talu trethi ond i osgoi talu am eu dinistr - er enghraifft, cwmnïau awyrennau'n osgoi treth danwydd.

Siom fawr yw ein bod mor araf yn gwneud y pethau amlwg i wella'r sefyllfa. Pethau fyddai'n ychwanegu at wir safon byw pobol.

Yn anffodus, mae llawer o'n gwleidyddion yn dal i raffu'r hen ystrydebau ("*conventional wisdom*" yn iaith Galbraith) ac yn gaeth i 'anffaeledigrwydd y farchnad rydd'.

Mae Llywodraeth San Steffan yn mynnu ymestyn y ddamcaniaeth amheus i addysg ac iechyd, y Llysoedd Barn a'r Swyddfa Bost. Hyn er y gwendidau sylweddol a chwbl amlwg a arweiniodd at gwmp 2007/8 a'r dirwasgiad yr ydym yn ceisio, yn herciog, ei oresgyn o hyd.

Mae tystiolaeth bod grym arian a'r farchnad ddilyffethair yn ddinistriol.

CREFYDD Y FARCHNAD

Sawl degawd yn ôl, cynigiodd Paul Ehrlich osodiad syml ond treiddgar. Sef bod effaith dynoliaeth ar y Ddaear (ein hól troed) yn dibynnu ar [a] ein cyfoeth/golud; [b] y technolegau yr ydym yn eu mabwysiadu a [c] rhif y boblogaeth.

Mae bob un elfen o'r hafaliad yn haeddu dadansoddiad trwyadl ond, ers ymddangosiad damcaniaeth Ehrlich, mae ffactorau eraill wedi dod i'r amlwg sef ein dealltwriaeth gynyddol o seicoleg ddynol a chrefydd y farchnad

Mae tueddiad cryf i droi pob ymwneud dynol yn gyfnewid ariannol. Cofiaf yn dda pan oeddwn yn byw yn Los Angeles fy mod wedi clywed cymydog yn sôn am "*having a fifty dollar dog*" - ci anwes a gostiodd \$50. Rhyfeddais, gan nad oedd y pris a dalwyd am Cymro, ci fy llencyndod, yn rhan o f'ymwybyddiaeth.

Mewn arbrawf dadlennol mewn ysgol feithrin dangoswyd bod rhieni'n fwy tebyg o fod yn hwyr yn codi eu plant pan fydden nhw'n wynebu dirwy am hynny yn hytrach na gyda threfn yn dibynnu ar ewyllys da a theimladau o ddyletswydd tuag at y staff.

Mae troi pob ymwneud cymdeithasol yn ddêl ariannol yn newid ein seicoleg. Ond dyna yw naws ein gwleidyddiaeth a'n cymdeithas, a hynny'n cael ei gyplysu o hyd gyda'r neges gyson bod y di-waith, y tlawd ar di-fraint yn oferwyr a dihirod tra bod y cyfoethog yn haeddu ein clod a'n hedmygedd.

Felly, er i Ehrlich lunio ei ddadansoddiad, mae ein syniad o gyfoeth a golud wedi newid a chrebachu.

Gorffennaf 18, 2013